



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1721 (Cy.133)

2005 No. 1721 (W.133)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

**Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu
Costau Gwaith) (Cymru)
2005**

**The Street Works (Sharing of Costs
of Works) (Wales) Regulations
2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli ac yn dirymu (o ran Cymru) Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) 1992 (O.S. 1992/1690) ("Rheoliadau 1992"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu costau rhwng yr awdurdod priffyrdd, pontydd neu drafnidiaeth ("yr awdurdod") a'r ymgymerwr lle mae gwaith priffyrdd pwysig, gwaith pontydd pwysig neu weithfeydd trafnidiaeth pwysig ("gweithfeydd pwysig") yn effeithio ar gyfarpar ymgymerwr mewn stryd a lle mae angen mesurau ("gweithfeydd gwyro") i ddiogelu'r cyfarpar hwnnw. Y prif newid y mae'r Rheoliadau'n rhoi effaith iddo yw bod cyfran yr ymgymerwr o gostau'r gweithfeydd gwyro y mae eu hangen yn achos rhai gweithfeydd trafnidiaeth pwysig bellach yn 7.5 y cant yn hytrach na'r 18 y cant y darperir ar ei gyfer gan Reoliadau 1992. Hefyd ceir rhai mân newidiadau a newidiadau drafftio.

These Regulations replace and revoke (as respects Wales) the Street Works (Sharing of Costs of Works) Regulations 1992 (S.I. 1992/1690) ("the 1992 Regulations"), which make provision for the sharing of costs between the highway, bridge or transport authority ("the authority") and the undertaker where the undertaker's apparatus in a street is affected by major highway, bridge or transport works ("major works") and measures ("diversionary works") are required to protect that apparatus. The principal change effected by the Regulations is that the undertaker's share of the costs of diversionary works required in the case of certain major transport works is now 7.5 per cent rather than the 18 per cent provided for by the 1992 Regulations. There are also some minor and drafting changes.

Lle mae gweithfeydd gwyro yn cael eu gwneud gan ymgymerwr oherwydd gweithfeydd pwysig a gychwynnir gan awdurdod, rhaid i'r awdurdod dalu 82 y cant o'r costau a ganiateir (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(2)) o'r gweithfeydd gwyro hynny, ar yr amod bod 75 y cant o'r costau hynny'n cael eu talu gan yr awdurdod yn y dull y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 8. Lle mae'r gweithfeydd pwysig yn weithfeydd trafnidiaeth pwysig (heblaw gwaith sy'n weithfeydd pontydd pwysig neu'n weithfeydd priffyrdd pwysig penodol), mae'r awdurdod yn talu 92.5 y cant o'r costau: rheoliad 3.

Where diversionary works are executed by an undertaker because of major works initiated by an authority, the authority must pay 82 per cent of the allowable costs (as defined in regulation 2(2)) of those diversionary works, provided that 75 per cent of those costs are paid by the authority in the manner provided in regulation 8. Where the major works are major transport works (other than works which are major bridge works or certain major highway works), the authority pays 92.5 per cent of the costs: regulation 3.

Lle mae gweithfeydd gwyro yn cael eu gwneud gan awdurdod oherwydd gweithfeydd pwysig yr awdurdod hwnnw, rhaid i'r ymgymerwr dalu 18 y cant neu 7.5 y cant (yn ôl y digwydd) o'r costau a ganiateir i'r

Where diversionary works are executed by an authority because of that authority's major works, the undertaker must pay 18 per cent or 7.5 per cent (as the

awdurdod: rheoliad 4.

Lle mae'r ymgwymerwr yn gofyn i'r awdurdod symud ei gyfarpar yn unig oherwydd newid yn y math o adeiladu ar gyfer priffyrdd, fel rheol mae'n ofynnol iddo dalu'r cyfan o'r costau a ganiateir: rheoliad 4(2). Yn achos gweithfeydd a gychwynnir gan berson heblaw awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel y cyfryw neu gan ymgwymerwr, mae'r rheolau uchod yn gymwys i weithfeydd gwyrho yn dibynnu a ydynt yn cael eu gwneud gan yr awdurdod neu gan yr ymgwymerwr, ond rhaid caniatáu yn llawn am unrhyw gyfraniad at gostau'r gweithfeydd gwyrho hynny sydd i'w hadfer gan y person y cychwynwyd y gweithfeydd ar ei ran: rheoliad 5.

Nid yw ymgwymerwr yn atebol am gostau a ganiateir mewn perthynas â darparu lle mewn pont neu gryfhau pont er mwyn gwneud lle am ei gyfarpar (rheoliad 6(1)) ac ni all adfer ei gostau lle mae wedi gosod ei gyfarpar yn y stryd ar ôl i'r awdurdod roi ei hysbysiad statudol o'i fwriad i wneud gweithfeydd pwysig: rheoliad 6(3).

Gwneir darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgwymerwr roi credyd am unrhyw elw y mae'n ei gael yn sgil gwella ei gyfarpar neu ohirio'r angen i adnewyddu ei gyfarpar yn deillio o fesurau diogelu: rheoliad 7. Ceir darpariaeth o ran amseru a dull talu (rheoliad 8) ac am eithriadau (rheoliad 9). Mae Rheoliad 10 yn dirymu Rheoliadau 1992 mewn perthynas â Chymru, yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn gymwys lle rhoddir hysbysiad o fwriad i wneud gweithfeydd pwysig ar y dyddiad y deuant i rym neu ar ôl hynny a bod Rheoliadau 1992 yn parhau i fod yn gymwys lle y rhoddir hysbysiad o'r fath cyn y dyddiad hwnnw.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer o dan y teitl; "Measures Necessary where Apparatus is affected by Major Works (Diversionary Works)" (1992) (ISBN 0-11-551149-0) gan y Llyfrfa a gellir ei gael oddi wrth eu siopau llyfrau hwy neu drwy'r post, ffacs neu ffôn oddi wrth PO Box 29, Norwich NR3 1GN (ffôn. 0870 6005522/ffacs 0870 6005533) neu dros e-bost oddi wrth book.orders@theso.co.uk.

case may be) of the allowable costs to the authority: regulation 4.

Where the undertaker requests the authority to move its apparatus solely because of a change in the type of highway construction, it is normally required to pay the whole of the allowable costs: regulation 4(2). In the case of works initiated by a person other than an authority in its capacity as such or an undertaker, the foregoing rules apply to diversionary works depending on whether they are executed by the authority or the undertaker, but allowance must be made in full for any contribution towards the costs of those diversionary works recoverable from the person on whose behalf the works were initiated: regulation 5.

An undertaker is not liable for allowable costs in relation to providing space in or strengthening of a bridge to accommodate its apparatus (regulation 6(1)) and cannot recover its costs where it has placed its apparatus in the street after the authority has given it statutory notice of its intention to carry out major works: regulation 6(3).

Provision is made requiring the undertaker to give credit for any gain received by it from betterment of its apparatus or deferment of the need to renew its apparatus resulting from protective measures: regulation 7. There is provision as to the timing and manner of payment (regulation 8) and for exclusions (regulation 9). Regulation 10 revokes the 1992 Regulations as respects Wales, provides that these Regulations apply where notice of intention to execute major works is given on or after the date on which they come into force and that the 1992 Regulations continue to apply where such notice is given before that date.

The Code of Practice entitled "Measures Necessary where Apparatus is affected by Major Works (Diversionary Works)" (1992) (ISBN 0-11-551149-0) is published by The Stationery Office and may be obtained from their bookshops or by mail, fax or telephone from PO Box 29, Norwich NR3 1GN (Tel. 0870 6005522/fax 0870 6005533) or by e-mail from book.orders@theso.co.uk.

2005 Rhif 1721 (Cy.133)**2005 No. 1721 (W.133)****PRIFFYRDD, CYMRU****HIGHWAYS, WALES****Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005****The Street Works (Sharing of Costs of Works) (Wales) Regulations 2005***Wedi'u gwneud* 28 Mehefin 2005*Made* 28 June 2005*Yn dod i rym* 1 Gorffennaf 2005*Coming into force* 1 July 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 85 a 104(1) a (3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(1) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru(2), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 85 and 104(1) and (3) of the New Roads and Street Works Act 1991(1) and which are now exercisable by the National Assembly for Wales in relation to Wales(2), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application**

1.-(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

1.-(1) The title of these Regulations is the Street Works (Sharing of Costs of Works) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 1 July 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(2) These Regulations apply to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn:

2.-(1) In these Regulations:

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod priffyrdd, pontydd neu drafnidiaeth;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the New Roads and Street Works Act 1991;

ystyr "y Cod" ("*the Code*") yw'r Cod Ymarfer o dan y teitl "Measures Necessary where Apparatus is affected by Major Works (Diversionary Works)" dyddiedig Mehefin 1992, ac a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 30 Mehefin 1992, fel y mae'n cael ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd;

"authority" ("*awdurdod*") means a highway, bridge or transport authority;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

"the Code" ("*y Cod*") means the Code of Practice entitled "Measures Necessary where Apparatus is affected by Major Works (Diversionary Works)" dated June 1992, and approved by the Secretary of State on 30th June 1992, as revised and re-issued from time to time;

ystyr "gweithfeydd adran 86(3) (a) i (g)" ("*section 86(3) (a) to (g) works*") yw gweithfeydd

"diversionary works" ("*gweithfeydd gwyro*") means measures needing to be taken in relation to an undertaker's apparatus in a street in consequence of

(1) 1991 c.22.

(1) 1991 c.22.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) The powers of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

trafnidiaeth pwysig sydd neu a fyddai, pe baent yn cael eu gwneud gan awdurdod priffyrdd, yn weithfeydd priffyrdd pwysig a ddisgrifir yn unrhyw rai o baragraffau (a) i (g) o adran 86(3) o'r Ddeddf.

ystyr "gweithfeydd gwyro" ("*diversionary works*") yw mesurau y mae angen eu cymryd mewn perthynas â chyfarpar ymgwymerwr mewn stryd o ganlyniad i weithfeydd pwysig neu er mwyn hwyluso eu gwneud;

ystyr "gweithfeydd pwysig" ("*major works*") yw gweithfeydd priffyrdd pwysig, gweithfeydd pontydd pwysig neu weithfeydd trafndiaeth pwysig.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn ystyr "costau a ganiateir" ("*allowable costs*") yw, mewn perthynas â gweithfeydd gwyro, swm yr holl gostau rhesymol a dynnir wrth eu gwneud, ac eithrio -

- (a) costau yr eir iddynt wrth baratoi'r set gyntaf o gynlluniau ac amcangyfrifon mewn perthynas â'r gweithfeydd gwyro hynny (ond nid wrth baratoi unrhyw gynlluniau ac amcangyfrifon y gallai fod ar yr awdurdod eu hangen);
- (b) costau na chaniateir mohonynt o dan reoliad 6(3).

Gweithfeydd gwyro a wneir gan ymgwymerwr oherwydd gweithfeydd pwysig awdurdod

3.-(1) Lle mae ymgwymerwr(1) yn gwneud gweithfeydd gwyro, oherwydd gweithfeydd pwysig a gychwynnir gan awdurdod, rhaid i'r awdurdod dalu i'r ymgwymerwr -

- (a) lle mae'r gweithfeydd pwysig yn weithfeydd trafndiaeth (heblaw gweithfeydd pontydd pwysig neu weithfeydd adran 86(3) (a) i (g)) a lle rhoddir taliad yn unol â rheoliad 8(1), swm sy'n gyfartal i 92.5 y cant o gostau a ganiateir y gweithfeydd gwyro;
- (b) mewn achosion eraill lle rhoddir taliad yn unol â rheoliad 8(1), swm sy'n gyfartal i 82 y cant o gostau a ganiateir y gweithfeydd gwyro;
- (c) ym mhob achos arall, costau a ganiateir y gweithfeydd gwyro.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 6.

Gweithfeydd gwyro a wneir gan awdurdod oherwydd gweithfeydd pwysig yr awdurdod

4.-(1) Lle mae'r awdurdod yn gwneud gweithfeydd gwyro, oherwydd gweithfeydd pwysig a gychwynnir gan awdurdod, rhaid i'r ymgwymerwr, yn

(1) Mae i "ymgwymerwr" yr ystyr a ragnodir i "undertaker" yn adran 48 o'r Ddeddf.

major works or in order to facilitate their execution;

"major works" ("*gweithfeydd pwysig*") means major highway works, major bridge works or major transport works;

"section 86(3) (a) to (g) works" ("*gweithfeydd adran 86(3) (a) i (g)*") means major transport works which are or would, if executed by a highway authority, be major highway works described in any of paragraphs (a) to (g) of section 86(3) of the Act.

(2) For the purposes of these Regulations "allowable costs" ("*costau a ganiateir*") means, in relation to diversionary works, the sum of all the reasonable costs incurred in executing them, except -

- (a) costs incurred in preparing the initial set of plans and estimates in relation to those diversionary works (but not in preparing any further plans and estimates which the authority may require);
- (b) costs disallowed under regulation 6(3).

Diversionary works executed by an undertaker because of an authority's major works

3.-(1) Where, because of major works initiated by an authority, an undertaker(1) executes diversionary works, the authority must pay to the undertaker -

- (a) where the major works are major transport works (other than major bridge works or section 86(3) (a) to (g) works) and payment is made in accordance with regulation 8(1), a sum equal to 92.5 per cent of the allowable costs of the diversionary works;
- (b) in other cases where payment is made in accordance with regulation 8(1), a sum equal to 82 per cent of the allowable costs of the diversionary works;
- (c) in all other cases, the allowable costs of the diversionary works.

(2) This regulation is subject to regulation 6.

Diversionary works executed by an authority because of the authority's major works

4.-(1) Where, because of major works initiated by an authority, the authority executes diversionary works, the undertaker must, subject to paragraph (2), pay to

(1) "Undertaker" has the same meaning prescribed in section 48 of the Act.

ddarostyngedig i baragraff (2), dalu i'r awdurdod -

(a) lle mae'r gweithfeydd pwysig yn weithfeydd trafniadaeth pwysig heblaw'r rhai -

(i) sydd hefyd yn weithfeydd pontydd pwysig, neu

(ii) sy'n weithfeydd adran 86(3) (a) i (g),

swm sy'n gyfartal i 7.5 y cant o gostau a ganiateir y gweithfeydd gwyro;

(b) ym mhob achos arall, swm sy'n gyfartal i 18 y cant o gostau a ganiateir y gweithfeydd gwyro.

(2) Lle y symudir cyfarpar ymgymerwr gan yr awdurdod ar gais yr ymgymerwr a hynny yn unig oherwydd newid yn y math o adeiladu ar gyfer priffyrdd, nad yw'n golygu newid yn nyfnder y gorchudd i ddyfnder sy'n llai neu'n fwy na'r dyfnder derbyniol a grybwyllir yn Atodiad B i'r Cod, rhaid i'r ymgymerwr dalu i'r awdurdod y costau a ganiateir a dynnir gan yr awdurdod wrth symud y cyfarpar.

(3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 6.

Gweithfeydd gwyro a wneir gan awdurdod neu gan ymgymerwr mewn achosion eraill

5.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys lle cychwynnir gweithfeydd pwysig -

(a) gan awdurdod ar ran person arall neu gan awdurdod heblaw yn rhinwedd ei swydd fel y cyfryw; neu

(b) gan ymgymerwr at ddibenion unrhyw berson o'r fath,

a lle gwneir gweithfeydd gwyro gan awdurdod neu gan yr ymgymerwr.

(2) Lle mae'r awdurdod yn gwneud y gweithfeydd gwyro, rhaid i'r ymgymerwr dalu i'r awdurdod y swm y byddai'n rhaid iddo fod wedi'i dalu o dan reoliad 4 pe bai'r gweithfeydd pwysig wedi'u cychwyn gan yr awdurdod.

(3) Lle mae'r ymgymerwr yn gwneud y gweithfeydd gwyro, rhaid i'r awdurdod dalu i'r ymgymerwr y swm y byddai'n rhaid iddo fod wedi'i dalu o dan reoliad 3 pe bai'r gweithfeydd pwysig wedi'u cychwyn gan yr awdurdod.

(4) Wrth gyfrifo'r costau a ganiateir at ddibenion rheoliadau 3 a 4 fel y'u cymhwysir gan y rheoliad hwn rhaid cymryd y canlynol i ystyriaeth o blaid yr ymgymerwr -

(a) unrhyw swm y gellir ei adennill oddi wrth unrhyw berson y gwneir y gweithfeydd gwyro at ei ddibenion, ni waeth a yw swm o'r fath yn cael ei adennill oddi wrth y person hwnnw neu beidio;

the authority -

(a) where the major works are major transport works other than those which -

(i) are also major bridge works, or

(ii) are section 86(3) (a) to (g) works,

a sum equal to 7.5 per cent of the allowable costs of the diversionary works;

(b) in all other cases, a sum equal to 18 per cent of the allowable costs of the diversionary works.

(2) Where an undertaker's apparatus is moved by the authority at the request of the undertaker and solely because of a change in the type of highway construction, not involving an alteration in the depth of cover to a depth of less or greater than the acceptable depth referred to in Appendix B to the Code, the undertaker must pay to the authority the allowable costs incurred by the authority in moving the apparatus.

(3) This regulation is subject to regulation 6.

Diversionsary works executed by an authority or an undertaker in other cases

5.-(1) This regulation applies where major works are initiated -

(a) by an authority on behalf of another person or by an authority other than in its capacity as such; or

(b) by an undertaker for the purposes of any such person,

and diversionary works are executed by an authority or the undertaker.

(2) Where the authority executes the diversionary works, the undertaker must pay to the authority the sum which it would have had to pay under regulation 4 if the major works had been initiated by the authority.

(3) Where the undertaker executes the diversionary works, the authority must pay to the undertaker the sum which it would have had to pay under regulation 3 if the major works had been initiated by the authority.

(4) In calculating the allowable costs for the purposes of regulations 3 and 4 as applied by this regulation there must be taken into account in favour of the undertaker -

(a) any sum recoverable from any person for whose purposes the diversionary works are executed, irrespective of whether or not such a sum is actually recovered from that person;

- (b) unrhyw swm y byddai modd ei adennill oddi wrth berson o'r fath pe na bai'r person hwnnw yn awdurdod.

Costau a ganiateir - darpariaethau pellach

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), lle mae'r gweithfeydd pwysig yn weithfeydd pontydd pwysig neu'n cynnwys gweithfeydd pontydd pwysig, rhaid i'r costau a ganiateir gael eu cyfrifo fel nad yw'r ymgwymerwr yn atebol am gostau mewn perthynas â darparu -

- (a) lle digonol yn strwythur y bont; neu
- (b) gryfder digonol yn y bont,

er mwyn gwneud lle am gyfarpar yr ymgwymerwr yn y bont.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i gostau -

- (a) unrhyw ddwythellau, cilfachau peipiau, crogfachau neu ddarpariaeth arall ar gyfer cartrefu neu gynnal cyfarpar yr ymgwymerwr o fewn strwythur y bont;
- (b) darparu lle digonol neu gryfder digonol i wneud lle am gyfarpar a osodir yn y bont ar ôl gwneud gweithfeydd pwysig o'r fath heblaw gosod, disodli neu addasu (heb gynnwys ehangu) cyfarpar a osodid gynt yn y bont cyn i'r gweithfeydd hynny gael eu gwneud.

(3) Wrth gyfrifo costau ymgwymerwr a ganiateir rhaid bod costau na chaniateir mohonynt mewn perthynas â chyfarpar a osodir yn y stryd ar ôl i'r awdurdod roi i'r ymgwymerwr -

- (a) yn achos gweithfeydd pwysig sef gweithfeydd pontydd pwysig sy'n cynnwys gosod pont newydd yn lle'r hen bont, hysbysiad o ddim mwy na 10 mlynedd,
- (b) yn achos unrhyw weithfeydd pwysig eraill, hysbysiad o ddim mwy na 5 mlynedd,

am eu bwriad i wneud y gweithfeydd pwysig.

Gwelliant etc.

7.-(1) Mewn achos lle mae ymgwymerwr yn atebol, o dan y Rheoliadau hyn, i wneud taliad i awdurdod neu lle mae awdurdod yn atebol i wneud taliad i ymgwymerwr mewn perthynas â gweithfeydd gwyro rhaid cymryd y canlynol i ystyriaeth o blaid yr awdurdod -

- (a) os bydd y mesurau hynny yn arwain at welliant yng nghyfarpar yr ymgwymerwr, swm sy'n gyfartal i'r budd y mae'r ymgwymerwr yn ei gael o ganlyniad i'r gwelliant, wedi'i gyfrifo yn unol ag Atodiad F i'r Cod;
- (b) os bydd y mesurau hynny'n arwain at ohirio'r angen i adnewyddu cyfarpar yr ymgwymerwr, swm a benderfynir yn unol ag Atodiad E i'r Cod.

- (b) any sum which would have been recoverable from such a person were that person not the authority.

Allowable costs - further provisions

6.-(1) Subject to paragraph (2), where the major works consist of or include major bridge works, allowable costs must be so calculated that the undertaker is not liable for costs in respect of the provision of -

- (a) adequate space in the structure of the bridge; or
- (b) sufficient strength in the bridge,

to accommodate the undertaker's apparatus in the bridge.

(2) Paragraph (1) does not apply to the costs of -

- (a) any ducts, pipe bays, hangers or other provision for housing or supporting the undertaker's apparatus within the structure of the bridge;
- (b) the provision of adequate space or adequate strength to accommodate apparatus installed in the bridge after the execution of such major works other than the installation, replacement or modification (not involving enlargement) of apparatus previously installed in the bridge before the execution of those works.

(3) In calculating an undertaker's allowable costs there must be disallowed costs incurred in respect of apparatus placed in the street after the authority has given to the undertaker -

- (a) in the case of major works consisting of major bridge works comprising a replacement of the bridge, not more than 10 years,
- (b) in the case of any other major works, not more than 5 years,

notice of their intention to execute the major works.

Betterment etc.

7.-(1) In a case where, under these Regulations, an undertaker is liable to make a payment to an authority or an authority is liable to make a payment to an undertaker in relation to diversionary works there must be taken into account in favour of the authority -

- (a) if those measures result in a betterment of the undertaker's apparatus, a sum equal to the benefit which the undertaker gains as a result of the betterment, calculated in accordance with Appendix F to the Code;
- (b) if those measures result in a postponement of the need to renew the undertaker's apparatus, a sum determined in accordance with Appendix E to the Code.

(2) At ddibenion y rheoliad rhaid penderfynu ar "gwelliant" yn unol ag Atodiad F i'r Cod.

Talu

8.-(1) At ddibenion rheoliad 3(1)(a) a (b) (gan gynnwys y darpariaethau hynny fel y'u cymhwysir gan reoliad 5) caiff yr awdurdod dalu i'r ymgwymerwr swm sy'n gyfartal i 75 y cant o'r amcangyfrif o 82 y cant neu 92.5 y cant (fel y bo'n briodol) o'r costau a ganiateir -

- (a) mewn un cyfandaliad cyn i'r gweithfeydd gwyro ddechrau; neu
- (b) os bydd yr awdurdod a'r ymgwymerwr yn cytuno yn achos gweithfeydd gwyro a fydd yn para, yn ôl yr amcangyfrif, am fwy na thri mis, fesul rhandaliadau o symiau o'r fath, ar y cyfryw adegau yn ystod gwneud y gweithfeydd gwyro, fel y mae'r awdurdod a'r ymgwymerwr yn cytuno arno.

(2) Cyn pen 90 diwrnod ar ôl i'r gweithfeydd gwyro gael eu cwblhau, rhaid i'r person y mae unrhyw swm o ran costau a ganiateir yn ddyledus iddo (y credydwr) roi i'r person y mae'r swm yn ddyledus oddi wrtho (y dyledwr) cyfrif o'r swm sy'n ddyledus a chyn pen 35 diwrnod ar ôl i'r cyfrif hwnnw gael ei roi -

- (a) rhaid i ddyledwr sy'n awdurdod sydd wedi talu cyfandaliad neu randaliadau yn unol â pharagraff (1) dalu i'r ymgwymerwr unrhyw swm sy'n weddill o'r amcangyfrif, ynghyd ag unrhyw swm pellach sy'n gyfartal i swm lle y mae'r gyfran o'r costau a ganiateir y mae gan yr ymgwymerwr hawl i'w gael yn uwch na'r amcangyfrif;
- (b) rhaid i'r dyledwr mewn unrhyw achos arall dalu i'r credydwr y swm sy'n ddyledus.

(3) Os bydd taliadau a wneir gan awdurdod o dan baragraff (1) yn uwch na'r gyfran berthnasol o'r costau a ganiateir a bennir yn rheoliad 3(1)(a) neu (b), rhaid i'r ymgwymerwr, cyn pen 35 diwrnod ar ôl rhoi'r cyfrif a grybwyllir ym mharagraff (2), ad-dalu i'r awdurdod swm y tâl dros ben.

Eithriadau

9. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithfeydd a wneir yn unol â -

- (a) trwydded o dan adran 50 o'r Ddeddf;
- (b) caniatâd o dan adran 61 o'r Ddeddf;
- (c) cytundeb i gartrefu cyfarpar mewn strwythur pont; neu
- (ch) cyfarwyddyd i symud neu newid lle'r cyfarpar, yn unol ag adran 62 o'r Ddeddf.

(2) For the purposes of this regulation "betterment" shall be determined in accordance with Appendix F to the Code.

Payment

8.-(1) For the purposes of regulation 3(1)(a) and (b) (including those provisions as applied by regulation 5) the authority may pay to the undertaker a sum equal to 75 per cent of the estimate of 82 per cent or 92.5 per cent (as appropriate) of the allowable costs -

- (a) in a single lump sum before the diversionary works begin; or
- (b) if the authority and the undertaker so agree in the case of diversionary works of an estimated duration of more than three months, by instalments of such amounts, payable at such times during the execution of the diversionary works, as the authority and the undertaker agree.

(2) Within 90 days of the completion of the diversionary works, the person to whom any sum by way of allowable costs is due (the creditor) must issue to the person from whom the sum is due (the debtor) an account of the sum owing and within 35 days of that account having been issued -

- (a) a debtor that is an authority which has paid a lump sum or instalments in accordance with paragraph (1) must pay to the undertaker any balance of the estimate, together with any further sum equal to the amount by which the proportion of allowable costs to which the undertaker is entitled exceeds the estimate;
- (b) the debtor in any other case must pay to the creditor the sum owing.

(3) If payments made by an authority under paragraph (1) exceed the relevant proportion of allowable costs specified in regulation 3(1)(a) or (b), the undertaker must, within 35 days of the issue of the account referred to in paragraph (2), refund to the authority the amount of the excess.

Exclusions

9. These Regulations do not apply to works executed pursuant to -

- (a) a licence under section 50 of the Act;
- (b) a consent under section 61 of the Act;
- (c) an agreement to house apparatus in a bridge structure; or
- (d) a direction to remove or change the position of apparatus, pursuant to section 62 of the Act.

(1) O.S. 1992/1690. Dirymwyd y Reoliadau hyn mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2000/3314.

(1) S.I. 1992/1690. These Regulations were revoked in relation to England by S.I. 2000/3314.

Dirymu a darpariaeth drosiannol

10.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) dirymir Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) 1992(1) ("Rheoliadau 1992") i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys lle mae'r hysbysiad ffurfiol o fwriad i fwrw ymlaen â gweithfeydd mawr yn unol â pharagraff 5 o Atodiad C i'r Cod yn cael ei gyflwyno ar y dyddiad y deuant i rym neu ar ôl hynny; ac mae Rheoliadau 1992 yn parhau'n gymwys lle mae hysbysiad ffurfiol o'r fath wedi cael ei gyflwyno cyn y dyddiad hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

28 Mehefin 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) 1998 p.38.

Revocation and transitional provision

10.-(1) Subject to paragraph (2) the Street Works (Sharing of Costs of Works) Regulations 1992(1) ("the 1992 Regulations") are revoked so far as they apply to Wales.

(2) These Regulations apply where the formal notice of intention to proceed with major works pursuant to paragraph 5 of Appendix C to the Code is served on or after the date on which they come into force; and the 1992 Regulations continue to apply where such formal notice has been served before that date.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

28 June 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 c.38.

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W107/7/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091159-8



9 780110 911595